

GRŴP CYNEFIN

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020

ADRODDIAD A DATGANIADAU ARIANNOL 2020

CYNNWYS	Tudalen
Manylion cyfreithiol a gweinyddol	3
Adroddiad y Bwrdd Rheoli	4
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol	18
Datganiad Incwm Cynhwysfawr Cyfunol	21
Datganiad Incwm Cynhwysfawr y Gymdeithas	22
Datganiad Sefyllfa Ariannol Gyfunol	23
Datganiad Sefyllfa Ariannol y Gymdeithas	24
Datganiad Newidiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn Cyfunol	25
Datganiad Newidiadau yng Nghronfeydd wrth Gefn y Gymdeithas	26
Datganiad Llif Arian Cyfunol	27
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	28

GRŴP CYNEFIN

MANYLION CYFREITHIOL A GWEINYDDOL

SWYDDFA GOFRESTREDIG

Tŷ Silyn
Ffordd Llanllyfni
Penygroes
LL54 6LY

AELODAU'R BWRDD RHEOLI

Dafydd Lewis	Cadeirydd	
Carys Edwards	Is-gadeirydd	
Julia Hughes		
Nia Hughes		(ymddiswyddodd Medi 2019)
Llinos Iorwerth		
Bob Jones		(ymddiswyddodd Gorffennaf 2019)
John Arthur Jones		
Clifton Robinson		
Chris Schoen		
Sharon Warnes		(ymddiswyddodd Mai 2019)
Ellen Llwyd Williams		
Mike Corfield		(penodwyd Medi 2019)
Jane Lewis		(penodwyd Medi 2019)
John Antony Jones		(penodwyd Medi 2019)
Geraint Wyn George		(penodwyd Medi 2019)

Y TÎM ARWEINYDDIAETH

Shan Williams	Prif Weithredwr
Bryn Ellis	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Busnes
Carina Roberts	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol
Dylan Roberts	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Adfywio
Nia Owen	Pennaeth Cyllid
Noela Jones	Pennaeth Gwasanaethau Tai

YSGRIFENNYDD

Shan Williams

BANCWYR

Barclays
Blwch Swyddfa Bost 3333
One Snowhill
Snowhill Queensway
Birmingham
B3 2WN

ARCHWILYDD

Beever and Struthers
St George's House
215-219 Chester Road
Manchester
M15 4JE

STATWS CYFREITHIOL

Cofrestredig dan y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014
Cofrestredig gyda Llywodraeth Cymru, Rhif L029
Mae'r Gymdeithas wedi mabwysiadu rheolau elusenol

GRŴP CYNEFIN

ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

Mae Cynllun Corfforaethol 2019-2024 Grŵp Cynefin yn gosod y cyfeiriad strategol fel a ganlyn:

GWELEDIGAETH

Gwneud gwahaniaeth positif i fywydau a chymunedau

DATGANIAD CENHADAETH

Bydd Grŵp Cynefin yn:

- **Darparu cartrefi a gwasanaethau rhagorol**
- **Cyfrannu at ddatblygiad cymunedau cynaliadwy**
- **Gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg gyda balchder**

GWERTHOEDD

Mae Grŵp Cynefin yn ymwybodol bod gan ei werthoedd ddylanwad mawr ar ymddygiad ac agwedd staff. Mae Grŵp Cynefin wedi buddsoddi amser gyda staff i sicrhau bod ei werthoedd yn gosod sylfaen gadarn i'w gynorthwyo i wneud y penderfyniadau gorau mewn unrhyw sefyllfa, gyda'r holl randdeiliaid. Mae gwerthoedd Grŵp Cynefin yn cyd-fynd gyda'i weledigaeth a'i amcanion, a dyma un o'r prif ysgogwyr wrth sefydlu ei ddiwylliant.

- **Agored** - Tryloyw ag yn gwneud pederfyniadau. Barod i gydweithio er mwyn sicrhau y canlyniadau gorau.
- **Arloesi** - Blaengar ac yn barod i herio ein hunain er mwyn darganfod ffyrdd newydd o weithredu a darparu gwasanaethau o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid.
- **Cefnogi** - Gweithio gydag angerdd i gefnogi ein cwsmeriaid, ein cydweithwyr a'n partneriaid yn ogystal â helpu ein cymunedau lwyddo.
- **Cyflawni** - Gweithredu'n broffesiynol gan ddefnyddio ein harbenigedd er mwyn sicrhau ffyniant y cwmni a'n pobl. Anelu am wellaint parhaus a gwerth am arian bob amser.
- **Parch** - Parchu ein gilydd ag eraill, hyrwyddo cydraddoldeb a gwrthod unrhyw ragfarn.

NODAU STRATEGOL 2019-2024

Mae yna bum nod strategol, a fydd yn ein helpu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau a chymunedau. Cefnogir pob amcan gan gyfres o gynlluniau gweithredu a dangosyddion y cytunwyd arnynt, a fydd yn dangos ac yn mesur y gwahaniaeth y mae'r cynllun wedi'i wneud, ac yn ei wneud, dros y pum mlynedd:

1. **Cartrefi o Safon**
2. **Gwasanaethau Rhagorol**
3. **Gwella Bywydau**
4. **Cynnal Cymunedau**
5. **Twf Cadarn a Chynaliadwy**

CYFLAWNI STRATEGAETH GRŴP CYNEFIN

Cyflawnodd Grŵp Cynefin ei amcanion strategol allweddol yn ystod 2019-20, fel y dangosir isod:

Amcan 1: Cartrefi o Safon:

Bydd Grŵp Cynefin yn darparu cartrefi fforddiadwy o safon uchel sy'n diwallu anghenion lleol.

Eleni ychwanegodd Grŵp Cynefin 82 uned at ei stoc a gwaredu 16 uned, gan ddod â chyfanswm nifer yr unedau dan ei reolaeth i 4,025. Fodd bynnag, roedd lleihad o 8 yn y nifer o unedau Cymorth Prynu, a chynnydd o 7 yn y nifer o unedau Rhan-ecwiti gan ddod â chyfanswm nifer yr unedau (gan gynnwys rhai Cymorth Prynu a Rhan-ecwiti) i 4,826 ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r rhain yn cynnwys y 4,001 uned rhent sydd unai'n eiddo i Grŵp Cynefin neu sydd wedi eu lesu gan Phartneriaeth Tai Cymru ac sy'n cael eu rheoli gan Grŵp Cynefin, a'r 801 uned marchnad ganolraddol (unedau Cymorth Prynu a rhan-ecwiti) y mae gan Grŵp Cynefin fuddiant ynddynt, yn ogystal â 24 uned sy'n eiddo i landlordiaid eraill ac Elusendai, ond sy'n cael eu rheoli gan Grŵp Cynefin. Cafodd ein pedwerydd datblygiad Tai Gofal Ychwanegol ar gyfer pobl hŷn, Hafod y Gest ym Mhorthmadog, ei agor yn swyddogol yn ystod y flwyddyn, gyda'r gwaith o adeiladu ein 5ed datblygiad Gofal Ychwanegol yn dechrau ar y safle yn Ninbych.

GRŴP CYNEFIN

ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

Nod 2: Gwasanaethau Rhagorol

Bydd Grŵp Cynefin yn darparu gwasanaethau cwsmer rhagorol yn gyson ar draws y grŵp

Mae Fframwaith Boddhad Tenantiaid newydd wedi'i ddatblygu gyda thenantiaid yn unol ag un o'r nodau strategol, a chyflwynwyd fframwaith i'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau ym mis Medi 2019. Mae'r ffordd y cesglir gwybodaeth am foddhad felly wedi newid yn ystod y flwyddyn, lle mae holiaduron 'pwls' bellach yn cael eu hanfon trwy amrywiol ddulliau cyfathrebu, gyda'r nod o gael mwy o ymatebion gan denantiaid. Mae sylfaen yr holiaduron hefyd wedi newid ychydig, felly, gall rhai ymatebion ymddangos yn wahanol o gymharu â chanlyniadau'r llynedd.

Dechreuodd adolygiad cynhwysfawr o'r adran Cynnal a Chadw yn ystod 2019-20, gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth cyson a fydd yn fwy effeithiol, gan sicrhau gwell boddhad i staff a gwell profiad i'n tenantiaid gan roi mwy o sicrwydd i Grŵp Cynefin. Bydd yr adolygiad yn cynnwys ailstrwythuro'r adran, ac fel rhan o hyn, penodwyd Pennaeth Rheolaeth Asedau newydd yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn. Mae sefyllfa COVID-19 wedi effeithio ar amserlen yr adolygiad, ond y nod yw ei chwblhau erbyn Mehefin 2021 yn unol â'r nod strategol.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol Trwsio a gwella cartrefi:

	2020	2019
Gwaith a gwblhawyd erbyn y dyddiad targed	92%	90%
Boddhad tenant gyda'r gwaith trwsio	98%	98%
Gwaith argyfwng a gwblhawyd o fewn 24 awr	99%	97%

* Fel y soniwyd uchod, mae tenantiaid wedi bod yn rhan o adolygu fframwaith boddhad newydd ac anfonwyd dau arolwg 'pwls' yn ystod 2019-20 fel un ffordd o dderbyn barn tenantiaid ar ein gwasanaethau. Cysylltwyd â thenantiaid trwy 3 dull - 33% trwy e-bost, 33% trwy'r post a 33% dros y ffôn. Roedd y ganran ymateb ffôn yn llawer uwch na'r ddau dull arall gyda 56% yn ateb dros y ffôn, 24% trwy e-bost ac 20% trwy'r post. Cynlluniwyd cyfres arall o arolygon ar gyfer Mawrth 2020 ond cafodd ei ohirio oherwydd COVID-19.

Gosod a rheoli eiddo:

Roedd y perfformiad am nifer y diwrnodau a gymerwyd i osod eiddo wedi gwella'n sylweddol yn ystod y flwyddyn, ac roedd yn is na'r targed ar gyfer tri chwarter cyntaf y flwyddyn. Roedd hyn yn adlewyrchiad o waith y Grŵp Ail-osod Strategol a sefydlwyd er mwyn gwella perfformiad. Fodd bynnag, roedd penderfyniad strategol i ddal rhywfaint o waith ail-osod yn ôl er mwyn rheoli cyllidebau, wedi cael effaith ar y perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn, gyda'r perfformiad yn dangos 26 diwrnod yn erbyn targed o 25 diwrnod.

	2020	2019
Colled rhent - ôl-ddyledion fel% o'r rhent y gellir ei gasglu	3.01%	3.10%
Colled rhent - eiddo gwag fel% o'r rhent y gellir ei gasglu	1.02%	1.10%
Diwrnodau a gymerir i'w gosod (gan gynnwys ail-lenwi ac eiddo newydd)	26	31
Nifer yr achosion YGG (ASB) yn ystod y flwyddyn: Mae'r achosion hyn yn amrywio o achosion categori un, sy'n cynnwys ymddygiad bygythiol ac ymosodiadau, i gategori tri a fyddai'n cynnwys niwsans sŵn, gerddi blêr ac ati	562	433

Sefydlwyd fframwaith a hîm gwasanaeth cwsmer newydd ym mis Awst 2018, o'r enw 'Cysomh Cynefin', a gyflwynodd ddulliau cyfathrebu fel e-bost, negeseuon testun, galwadau ffôn, sgwrsio ar-lein a grwpiau ffocws fel modd i denantiaid leisio'u barn. Bydd mabwysiadu'r fframwaith newydd hefyd yn helpu i sicrhau y bydd lefel uchel o wasanaeth i gwsmeriaid yn cael ei gynnal

Dangosyddion Perfformiad Allweddol Gwasanaethau Cwsmer:

	2020	2019
Nifer y galwadau ffôn a dderbyniwyd	56,195	60,975
Atebwyd o fewn 30 eiliad	93.8%	99.0%
Nifer y negeseuon e-bost a dderbyniwyd	7,344	7,000
Nifer y negeseuon Facebook wedi ei derbyn	892	1,200

GRŴP CYNEFIN

ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

Nod 3: Gwella Bywydau

Bydd Grŵp Cynefin yn darparu cymorth a chyfleoedd i bobl

Mae Grŵp Cynefin yn darparu mwy na thai, ac yn rheoli nifer o fentrau sy'n galluogi pobl ag amrywiaeth o anghenion i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel.

- Cynorthwyodd Tîm Lles Grŵp Cynefin 331 o denantiaid am y tro cyntaf, gyda 1532 achos sydd wedi helpu tenantiaid i gael £938,347 mewn budd-daliadau ychwanegol / incwm Credyd Cynhwysol.
- Bu i'r tîm weithio gyda thimau mewnol megis Wardeiniaid Ynni - a wnaeth eu hunain ymdrin â 773 o geisiadau ar gyfer Gostyngiadau Cartrefi Cynnes ar ran ein tenantiaid a thrigolion eraill gydag amrywiaeth o ddarparwyr ynni. Bydd hyn yn cyflawni arbedion o £108,220.
- Bu i'r sefydliad ddarparu cymorth i gael cyflogaeth a datblygu sgiliau newydd. Cefnogwyd cyfanswm o 24 o denantiaid eu cyfeirio at hyfforddiant a chefnogaeth cyflogaeth, cafodd 6 swydd, derbyniwyd 9 gymorth cymhwyster hyfforddi – gan gynnwys cyrsiau NVQ, cyrsiau harddwch, hyfforddiant TG, hyfforddiant cerbyd fforch godi, hyfforddiant HGV a dysgu Cymraeg. Gwirfoddolodd un tenant ar safle, ac roedd 11 yn llwyddiannus yn eu ceisiadau am y grant 'Camau i Gyflogaeth'
- Aseswyd 300 o geisiadau, a'u henwebu ar gyfer eiddo trwy gyfrwng cofrestr tai fforddiadwy Tai Teg, sy'n gynnydd o 46% o gymharu â 2018-19.
- Mae Grŵp Cynefin yn cynnal cyrsiau presgripsiwn cymdeithasol llwyddiannus, mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Mae Gorwel, uned fusnes o fewn Grŵp Cynefin, yn darparu cymorth i hyd at 500 o ddefnyddwyr gwasanaeth yr wythnos. Mae hyn yn cynnwys cymorth i deuluoedd sy'n dioddef cam-drin domestig, cymorth i blant a phobl ifanc ac yn darparu gwasanaeth atal digartrefedd a chefnogaeth o fewn y cymunedau.

Nod 4: Cynnal Cymunedau

Bydd Grŵp Cynefin yn ymgysylltu â chymunedau lleol ac yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol

Uchafbwyntiau o waith cymunedol blaengar Grŵp Cynefin:

- Cefnogwyd cyfanswm o grantiau o £1.2m gan y Tîm Mentrau Cymunedol ar gyfer prosiectau amrywiol yn ein cymunedau
- Derbyniwyd cyfanswm o 70 o geisiadau yn ystod 2019-20 (y swm uchaf hyd yn hyn) ar gyfer y cynllun Grant Cymunedol Grŵp Cynefin. Mae'r grant ar gael i grwpiau gwirfoddol, grwpiau cymunedol neu grwpiau o breswylwyr a hoffai weithio gyda'i gilydd i wneud gwahaniaeth i'w cymuned leol. Dyfarnwyd cyfanswm o £11,877 i 87% o'r rhain, sy'n cynrychioli 61 grŵp. Roedd y prosiectau yn cynnwys clybiau chwaraeon, gwelliannau i gyfleusterau cymunedol fel canolfannau cymunedol a gerddi cymunedol a diwrnodau hwyl.
- Enwyd Youth Shedz, a ddatblygwyd gan bobl ifanc 16 i 25 oed sy'n gweithio gyda Grŵp Cynefin a Gorwel, yn brosiect digartrefedd y flwyddyn yn y DU (landlordiaid gyda llai na 4,000 o gartrefi) yng Ngwobrau Tai'r DU.
- Enillodd y rhaglenni Pontio'r Cenedlaethau yn y Bala, Dinbych, Rhuthun a Chaerdybi, sy'n dod â phobl ifanc a hŷn ynghyd, y wobwr gyntaf yn y categori partneriaeth gymunedol yng Ngwobrau TPAS Cymru.
- Profwyd cyfradd gadw o 100% yn y prosiect arloesol Celf at Iechyd Dinbych, a ariannwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, lle rhagnododd meddygon teulu gwrs celfyddydau i gleifion â phroblemau iechyd meddwl.
- Helpodd Grŵp Cynefin nifer o denantiaid yn ôl i gyflogaeth neu hyfforddiant.
- Mae prosiectau adfywio, gan gynnwys Y Shed yng Ngallt Melyd, Dyserth a Siop Griffiths (Yr Orsaf), Penygroes wedi sicrhau canlyniadau adfywio cadarnhaol i gymunedau o ran cyflogaeth a thwf economaidd

Nod 5: Twf Cadarn a Chynaliadwy

Byddwn yn arddangos yr arferion arweinyddiaeth, llywodraethu a rheolaeth gorau fel grŵp

Y Bwrdd Rheoli sy'n cyfeirio gweithgareddau a chyfeiriad strategol y grŵp. Mae cyfrifoldeb am reoli'r sefydliad wedi'i ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a'r Tîm Arweinyddiaeth.

Er mwyn dangos yr arferion arweinyddiaeth, llywodraethu a rheoli gorau fel grŵp:

GRŴP CYNEFIN

ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

- Mae trefniadau llywodraethu yn cael eu datblygu'n barhaus, ac yn ystod 2019-20 cynhaliwyd adolygiad o strwythur llywodraethu Grŵp Cynefin er mwyn sicrhau bod ganddo strwythur llywodraethu a oedd yn addas ar gyfer dyheadau, nodau ac amcanion y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau gyda'r Bwrdd Rheoli trwy weithdai. Roedd y Fframwaith a adolygwyd yn cynnwys sefydlu pwyllgor newydd, sef y Pwyllgor Cyllid a Thwf, ac uno dau Bwyllgor arall, sef y Pwyllgor Llywodraethu a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth, yn Bwyllgor Rheolaeth Llywodraethu newydd.
- Bu Grŵp Cynefin hefyd ymgynghori ar Dâl Cydnabyddiaeth y Bwrdd a chychwynnodd dalu ym mis Gorffennaf 2019, a fydd yn cynorthwyo i gadw a denu'r unigolion cywir er mwyn cyflawni amcanion corfforaethol y grŵp, ac ymateb i heriau'r dyfodol.
- Yn dilyn ymddiswyddiadau rhai aelodau o'r Bwrdd, ac ar ôl cynnal dadansoddiad o'r bwch sgiliau, llwyddodd ymgyrch recriwtio i benodi pedwar aelod newydd o'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn.
- Fel y soniwyd eisoes yn yr adroddiad, ac yn unol â'r nod strategol a osodwyd ar gyfer 2019-20, cyrhaeddodd Grŵp Cynefin lefel 'Arian' o'r Achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl, a bydd Cynllun Gweithredu Datblygu Pobl yn cael ei lunio gan ymgorffori argymhellion yr adroddiad.
- Cyhoeddodd Grŵp Cynefin ei ddatganiad Gwerth am Arian cyntaf ar gyfer 2019 ac mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys y canlynol:
 - Arbedwyd £490k dros 5 mlynedd trwy fuddsoddi £277K (ac eithrio costau staffio) mewn meddalwedd Tai "Active H" newydd
 - Cwblhawyd 97% o atgyweiriadau brys o fewn 24 awr
 - Enillwyd bron i £1m o fuddion ychwanegol i'n tenantiaid gan ein Tîm Lles
 - £182.80 yn cael ei arbed yr wythnos trwy gyflogi cyfieithydd mewnol, sydd hefyd yn arbed amser i aelodau eraill o staff
 - Arbedwyd £9,641 mewn perthynas â chostau cyhoeddi'r cylchgrawn tenantiaid "Calon", gan fod 1450 o denantiaid bellach yn dewis ei dderbyn trwy e-bost.
 - Mae Grŵp Cynefin wedi cyflogi Uwch Swyddog Caffael yn ystod 2019 a fydd yn gyrru gwaith y Strategaeth Caffael a Chadwyn Contractwyr ymlaen ymhellach i gyflawni effeithlonrwydd pellach yn ystod 2020 a thu hwnt.
- Yn dilyn recriwtio Swyddog Diogelu Data ar y cyd â Chymdeithas Tai Gogledd Cymru, gwelwyd gwelliant mawr yn niwylliant cyffredinol arferion diogelu data cadarn yn ystod 2019-20, ac mae archwiliad mewnol wedi cadarnhau bod Grŵp Cynefin yn cydymffurfio â gofynion y GDPR gan fwyaf, gyda ffocws a chynllun gweithredu clir ar waith i barhau i gydymffurfio'n llawn.

PRIF WEITHGAREDDAU GRŴP CYNEFIN

Fel landlord cymdeithasol gofrestredig mae Grŵp Cynefin yn:

- Rheoli mwy na 4,000 o gartrefi ar draws Gogledd Cymru a gogledd Powys
- Darparu gwasanaethau landlord trwy rwydwaith o swyddfeydd lleol yn y Bala, Dinbych, Llangefni a Phenygroes.
- Annog tenantiaid i ddylanwadu ar berfformiad a gwella'r gwasanaethau a dderbynnir ganddyn nhw a'u cymunedau
- Datblygu cartrefi o bob math mewn ymateb i anghenion lleol; ar gyfer teuluoedd, pobl sengl, pobl hŷn ac unigolion bregus ag anghenion cefnogaeth
- Gyda diddordeb neu'n rhan-berchen neu wedi hwyluso bron i 800 o gartrefi marchnad ganolraddol ar gyfer pobl na fedrant brynu cartref addas ar y farchnad agored
- Gweinyddu Cofrestrï Tai Fforddiadwy ar gyfer y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru
- Cefnogi Hwyluswyr Tai Gwledig sy'n cefnogi ymdrechion cymunedau i gynyddu'r cyflenwad tai ar gyfer pobl leol
- Buddsoddi ym Mhartneriaeth Tai Cymru (menter ar y cyd gyda thri grŵp tai arall), sydd wedi darparu bron i 1,150 o gartrefi rhent canolraddol ychwanegol ers ei ffurfio yn 2011.

Fel grŵp o fusnesau cymdeithasol mae Grŵp Cynefin hefyd yn:

- Rheoli dwy asiantaeth Gofal a Thrwsio trwy ddau is-gwmni (Canllaw (Eryri) Cyf a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych) sy'n gwneud addasiadau hanfodol i gartrefi pobl hŷn a phobl ag anableddau
- Darparu gwasanaethau cymorth yn seiliedig ar dai trwy gyfrwng Gorwel, uned fusnes mewnol Grŵp Cynefin, sy'n galluogi unigolion a theuluoedd i fyw'n annibynnol; yn cynnwys dioddefwyr cam-drin domestig, pobl ddigartref, pobl hŷn a phobl ag anghenion cefnogaeth iechyd meddwl
- Rheoli prosiect atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc yng Nghonwy


GRŴP CYNEFIN

ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI


- Rheoli'r prosiect datblygu cymunedol 'Bus Stop' ar ran cwsmeriaid yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn
- Rheoli'r prosiect cyflogaeth a hyfforddiant galwedigaethol Wardeiniaid Ynni Cymunedol yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chonwy
- Rheoli Canolfan Fenter Congl Meinciau ym Mhenrhyn Llŷn, Gwynedd
- Rheoli canolfan fenter ieuencid HWB Dinbych yn Ninbych
- Mae'n rheoli menter Shed yng Nhallt Melyd, menter gwerth £1.2 miliwn sydd wedi trawsnewid hen adeilad rheilffordd gwag yn ganolfan gyda siop, caffi, gwybodaeth dreftadaeth leol, ac unedau busnes. Agorodd Y Shed yn swyddogol yn ystod 2019-20
- Gweithredu fel Ymddiriedolwr Corfforaethol dwy elusen elusendai, Elusen Elizabeth Owen, Llanfair DC a Thai Ellen Glynne, Llandwrog.
- Darparu unedau busnesau ar gyfer grwpiau cymunedol yn Llangefni.

Mae'r graffiau a ganlyn yn rhoi crynodeb y stoc tai (sy'n eiddo i ac yn cael ei reoli gan Grŵp Cynefin ynghyd â'r stoc tai canolraddol y mae gan y sefydliad fuddiant ynddo) yn ôl math yr eiddo a'r awdurdod lleol y mae'r eiddo ynddo. Mae'r graff yn cynnwys eiddo Cymorth Prynu a Rhan-ecwiti (cyfanswm o 801 uned) a hwyluswyd gan, ond nad ydynt yn cael eu rheoli gan Grŵp Cynefin, ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn nodyn 5 o'r cyfrifon. Serch hynny, mae nodyn 5 yn cynnwys 24 uned ychwanegol, sy'n cael eu rheoli gan Grŵp Cynefin ar ran eraill.

Graff 1: Stoc Tai @ 31/03/20 – Yn ôl math o eiddo



Graff 2: Stoc Tai @ 31/03/29 – Yn ôl awdurdod lleol



GRŴP CYNEFIN

ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

Sylfeini Ariannol i Grŵp Cynefin

Gosodwyd sylfeini cryf yn ystod y 12 mis diwethaf, gan ein helpu i gyflawni ein gwerth cymdeithasol. Mae Grŵp Cynefin wedi bod yn ail-gyllido a threfnu cyfleusterau benthycy newydd, sydd wedi gadael y sefydliad mewn sefyllfa dda i gyllido'i anghenion datblygu dros gyfnod ei Strategaeth Twf a thu hwnt. Mae Grŵp Cynefin yn dangos ei fod yn cydymffurfio'n llawn â phob agwedd o'i Bolisi Rheoli Trysorlys presennol.

Mae staff yn parhau i weithio'n galed i wella effeithlonrwydd y busnes a darparu gwell gwasanaethau i'n cwsmeriaid a'n cymunedau, ac yn ystod y flwyddyn, crëwyd swydd newydd Uwch Swyddog Caffael fel rhan o ymrwymiad Grŵp Cynefin i yrru'r elfen hon ymlaen ymhellach. Mae Strategaeth Twf, Strategaeth Ystadau, Strategaeth Gwerth am Arian, Strategaeth Trawsnewid Digidol a Strategaeth Caffael a Chadwyn Gyflenwi newydd ar waith, – mae'r pum dogfen allweddol yma'n ffurfio colofnau Cynllun Corfforaethol 5 mlynedd Grŵp Cynefin.

Cymeradwyodd y Bwrdd Rheoli ei Strategaeth Trysorlys ar gyfer 2020-21 ym mis Chwefror 2020.

Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Dyfarniad Rheoleiddio ar Grŵp Cynefin, a derbyniodd y grŵp ddyfarniad 'Safonol' ar gyfer Llywodraethu a Gwasanaethau a Hyfywedd Ariannol. Mae hyn yn golygu bod y Rheoleiddiwr o'r farn bod Grŵp Cynefin yn nodi a rheoli risgiau newydd sy'n dod i'r amlwg yn briodol ac yn cwrdd â'i ofynion hyfywedd a bod ganddo'r gallu ariannol i ddelio â senarios yn briodol.

Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd ymarfer 'profi straen' cynhwysfawr gyda'r Bwrdd Rheoli wrth baratoi'r rhagolygon ariannol 30 mlynedd diweddaraf.

Mae rhagolygon ariannol y grŵp ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn dangos adnoddau digonol i gyflawni ymrwymadau busnes ac ariannol cyfredol a rhagwelir. Mae gan Grŵp Cynefin ddigon o gyfleusterau benthyciad arian parod a gwarantedig i fodloni ei ofynion cyllido tan ddiwedd Medi 2022.

Bydd Grŵp Cynefin yn parhau i gydymffurfio â phob un o'i chyfmodau benthyciad benthycwyr bob amser. Hyd yn hyn, mae effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU wedi bod o fewn y disgwyliadau.

Mae Grŵp Cynefin yn asesu ei effeithiolrwydd yn barhaus mewn perthynas â Gwerth am Arian (GAA). Fel sefydliad sydd â phwrpas cymdeithasol, mae wedi ymrwymo i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i'n tenantiaid, tenantiaid y dyfodol a'r gymuned ehangach. Adlewyrchir yn fframwaith rheoleiddio Llywodraeth Cymru, yng nghyd-destun cyni, amgylchedd gweithredu cynyddol heriol i gymdeithasau tai a chaledi go iawn i lawer o denantiaid, fod ymdeimlad bod angen i gymdeithasau ddyblu eu hymdrech o ran cyflawni ac arddangos GAA.

Cymeradwyodd Grŵp Cynefin Strategaeth GAA newydd ym mis Mawrth 2018. Penodwyd pencampwyr GAA gan bob gwasanaeth ac maent wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd i helpu i gyflawni'r strategaeth newydd. Rhyddhawyd Datganiad GAA yn ystod y flwyddyn, a bydd yn cael ei gynhyrchu bob blwyddyn wedi hynny. Mae'r llywodraeth i bob pwrpas yn dweud, beth bynnag yw cenhadaeth y sefydliad, mae GAA yn ymwneud â sicrhau'r cyflawniad mwyaf posibl, ac yna ei ddangos i randdeiliaid.

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob Gymdeithas Dai ddatblygu Cofrestr Asedau a Rhwymedigaethau gadarn i baratoi ar gyfer y senario waethaf pe bai cymdeithas dai mewn trafferthion. Mae Grŵp Cynefin wedi cynhyrchu cofrestr asedau a rhwymedigaethau sy'n cael ei diweddarau bob chwarter. Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio ac Adnoddau (bellach y Pwyllgor Archwilio a Risg) y gofrestr ym mis Mai 2017 ac mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn adolygu ac yn cymeradwyo'r gofrestr bob chwarter. Ym mis Hydref 2018, cynhaliwyd archwiliad mewnol ar y Gofrestr Asedau a Rhwymedigaethau, a dderbyniodd sicrwydd 'Sylweddol' am ddyluniad y prosesau a'r rheolaethau sydd ar waith a sicrwydd 'Sylweddol' dros ei effeithiolrwydd gweithredu.

Aseswyd prosesau Cynllunio Busnes Strategol o amgylch ffrydiau busnes sylfaenol Grŵp Cynefin, yn seiliedig ar ddadansoddiad cost ac incwm cadarn. Mae hyn wedi darparu sylfaen gadarn i'r Bwrdd Rheoli wneud dewisiadau strategol yn y dyfodol trwy strategaeth dwf newydd a bydd yn cael ei adolygu'n aml i asesu tueddiadau neu dwf o fewn ffrydiau busnes amrywiol.

Manylir ar berfformiad ariannol Grŵp Cynefin a'r grŵp am y flwyddyn yn y datganiadau ariannol hyn. Mae'r Bwrdd Rheoli o'r farn bod y canlyniadau'n foddhaol ac yn nodi'r twf parhaus a'r cryfder ariannol a fydd yn galluogi'r grŵp i ehangu'r ddarpariaeth o dai a gwasanaethau o ansawdd uchel i'r cymunedau lleol.

GRŴP CYNEFIN

ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

Trosiant y grŵp am y flwyddyn oedd £28m (2019- £26m) ac roedd £20.8m (2019- £19.3m) yn incwm rhent a thâl gwasanaeth. Cyfanswm gwarged y grŵp am y flwyddyn oedd £1.371m (2019- £1.683m) ac yn dilyn yr addasiad pensiwn budd diffiniedig a oedd yn ofynnol yn ystod y flwyddyn gan ddangos incwm ychwanegol o £ 4.27m (2019- gwariant o £ 5.25m), roedd y cronfeydd refeniw wrth gefn yn £29.3m (2019 - £23.65m) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Bwrdd Rheoli o'r farn bod hwn yn ganlyniad boddhaol am y flwyddyn. Roedd eiddo tai yn werth net o £286m ar bapur ar ddiwedd y flwyddyn (2019- £279m).

Gwneud gwahaniaeth

Nod Grŵp Cynefin yw cwblhau cyfanswm o 360 uned dros dair blynedd erbyn 31 Mawrth 2022, fel rhan o'n Strategaeth Twf newydd.

Fodd bynnag, oherwydd effeithiau COVID-19 a'r oedi sy'n effeithio yn uniongyrchol ar safleoedd adeiladu, bydd y ffigwr hwn yn cael ei fonitro'n barhaus dros y 12 mis nesaf, a gall newid.

Yn ystod 2019-2020, buddsoddodd Grŵp Cynefin £5.6m mewn chynnal a chadw. Rhoddodd Grŵp Cynefin flaenoriaeth hefyd i weithio mewn ymateb i'w Asesiadau Risg Tân, a'u blaenoriaethwyd ar sail risg.

Helpodd Grŵp Cynefin gefnogi cwsmeriaid i hyfforddiant a chyflogaeth, darparu cyngor budd-dal i denantiaid trwy ei Dîm Lles, ac ymdrin â 1532 o achosion i gynorthwyo tenantiaid gydag enillion ariannol o £938,347 yn ystod 2019-20; wrth barhau i weithio gydag asiantaethau eraill i gefnogi cymunedau gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd, addysg uwch, addysg bellach ac ysgolion, i greu cymunedau sy'n fwy gwydn.

Mae Grŵp Cynefin wedi bod yn gweithio ar Strategaeth Sgiliau a Datblygu yn ystod 2019-20, a chaniatawyd cais cydweithredol gyda Chymdeithasau Tai eraill dan arweiniad Procure Plus trwy'r CITB ar gyfer 300 o brentisiaid dros 3 blynedd - a fydd yn datblygu ymhellach yn ystod 2020-21.

Cynnwys tenantiaid

Mae cynnwys tenantiaid wrth graidd Grŵp Cynefin ac mae'n rhoi cyfle i denantiaid gymryd rhan ac ymgysylltu mewn gwahanol ffyrdd. Cred Grŵp Cynefin fod gan bawb rywbeth i'w gyfrannu. Mae hyn wedi ei gofnodi yn ei Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid a Chymunedau. Trwy weithio gyda'n gilydd yn gydweithredol, canolbwyntio ar ein cryfderau a'n cyfleoedd, medrwn ddarparu gwasanaethau a grymuso tenantiaid a chymunedau i gyflawni canlyniadau sy'n bwysig iddynt. Yn ystod 2019-20, ac fel ymateb uniongyrchol i adolygiad Bwrdd Rheoleiddio Llywodraeth Cymru o sicrhau bod tenantiaid yn chwarae rhan effeithiol mewn gwneud penderfyniadau strategol a siapio gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n briodol i denantiaid, comisynodd Grŵp Cynefin TPAS Cymru i hwyluso adolygiad ar ba mor effeithiol oedd hyn o fewn ei fframwaith llywodraethu. Cwblhawyd yr adolygiad ym mis Mawrth 2020, ac mae'r Bwrdd Rheoli wedi cytuno ar gynllun gweithredu i sicrhau a gwella cyfranogiad tenantiaid i fod wrth wraidd ei broses benderfynu.

Perfformiad Cyffredinol

Mae staff Grŵp Cynefin wedi ymrwymo'n llwyr i ddarparu'r gwasanaethau gorau posib. Mae gwerth am arian a'r angen i foderneiddio rhai o wasanaethau rheng flaen allweddol y sefydliad wedi arwain at adolygiad strategol o'i wasanaeth Trwsio a Chynnal a Chadw, gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth hyd yn oed yn well i'r tenantiaid.

Bu i Grŵp Cynefin gydymffurfio gyda gofynion Diogelwch Nwy ar gyfradd o 99.94% a chyflawni cyfradd boddhad o 78% o ran gwasanaeth trwsio a chynnal a chadw am y flwyddyn.

Yn y cyfamser, fe wnaeth Tîm Swyddogion Tai Grŵp Cynefin barhau i gefnogi tenantiaid y gymdeithas i gynnal eu tenantiaethau, ac er bod ôl-ddyledion rhent yn codi a gostwng yn ystod y flwyddyn, erbyn diwedd Mawrth 2020, roedd y perfformiad i lawr i 3.01%. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd COVID-19 yn cael effaith negyddol ar ôl-ddyledion rhent am 2020-21.

Parhaodd perfformiad foidiau i wella yn ystod y flwyddyn hefyd, gyda'r perfformiad yn 26 diwrnod erbyn diwedd Mawrth 2020, o'i gymharu â 31 diwrnod ar ddiwedd Mawrth 2019. Unwaith eto, gydag effeithiau COVID-19, a'r anallu i osod eiddo yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud, rhagwelir y bydd perfformiad ar gyfer 2020-21 yn cael ei effeithio. Mae 64% o'n tenantiaid wedi byw yn eu heiddo am gyfnod o 5 mlynedd neu fwy.

GRŴP CYNEFIN

ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

Ymgynghorodd Grŵp Cynefin â grŵp o denantiaid ar yr adolygiad rhent blynyddol arfaethedig a drafodwyd wedyn gan y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau, a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli. Er bod hyn yn rhan o ddarn ehangach o waith, mae Grŵp Cynefin yn cefnogi'r egwyddor o'r polisi rhent lleol fforddiadwy, wrth sicrhau hyfywedd a chynaliadwyedd y busnes hefyd.

Yr Amgylchedd Gweithredu

Roedd 2019-2020 yn flwyddyn o ddwy ran - hyd at 23 Mawrth 2020 ac ar ôl 23 Mawrth 2020, o ganlyniad i'r pandemig byd-eang COVID-19 a'r cyfyngiadau symud a weithredwyd ar orchymyn Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae'r misoedd digynsail diwethaf wedi bod yn heriol i Grŵp Cynefin. Mae'r achos wedi dod yn brif risg i Grŵp Cynefin, ond mae'r grŵp wedi gweithredu'n gyflym ac wedi rheoli'r risg yn effeithiol.

Fel cymdeithas dai, mae Grŵp Cynefin yn parhau i weithredu mewn amgylchedd cymhleth gyda heriau a gofynion gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol newidiol. Y llynedd, roedd hyn yn cynnwys Brexit, a oedd yn cael lle blaenllaw yn y cylch gwleidyddol; tra bod pryder cyhoeddus a gwleidyddol cynyddol ynghylch mynd i'r afael â thlodi, cynydd mewn digartrefedd a chysgu ar y stryd a newid yn yr hinsawdd. Arweiniodd trasiedi Tŵr Grenfell, ac yna Adolygiad Hackitt at fwy o ffocws ar ddiogelwch tân a phwysigrwydd clywed llais tenantiaid.

Mae polisi cymdeithasol a thai ychwanegol yng Nghymru wedi golygu fod awdurdodau lleol unwaith eto yn gallu adeiladu tai cyngor newydd, a bu symudiad tuag at weithio mwy cydweithredol rhwng cymdeithasau tai, awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Mae Grŵp Cynefin mewn sefyllfa dda ac mae ganddo hanes da o weithio gyda sefydliadau sector cyhoeddus i ddatblygu atebion arloesol, gan ymateb yn gadarnhaol i'r heriau sy'n wynebu ein tenantiaid, cwsmeriaid a chymunedau lle'r ydym yn gweithredu fel landlord.

Mae'r angen am dai cymdeithasol fforddiadwy o ansawdd da yn parhau i fodoli. Mae oblygiadau sylweddol i'r sector yn deillio o'r adolygiad annibynnol o'r cyflenwad tai fforddiadwy (Mai 2019), gan gynnwys gosod rhent, cyllid grant, datgarboneiddio a disgwyliadau gwerth am arian.

Trwy gydol y pandemig COVID-19, mae Grŵp Cynefin wedi parhau i gynnal ei wasanaethau, gan ddarparu cefnogaeth i denantiaid a chwsmeriaid sydd â'r angen mwyaf, gan sicrhau bod tenantiaid, staff, a chontractwyr yn cael eu cadw'n ddiogel, gan wneud popeth posibl i gefnogi cymunedau ledled Gogledd Cymru. Mae gweithredu'r Strategaeth Trawsnewid Digidol newydd, a buddsoddi yn iechyd, diogelwch a lles staff wedi bod yn hanfodol wrth alluogi Grŵp Cynefin i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd gydnherth.

Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC)

Mae'n hanfodol bod stoc Grŵp Cynefin yn parhau i gyrraedd safonau SATC. Comisiynwyd adolygiad annibynnol yn ystod 2019-20, lle defnyddiwyd y data wrth adrodd ar ein sefyllfa gydymffurfio i'r Bwrdd Rheoli, i'r Rheoleiddiwr ac i arianwyr Grŵp Cynefin. Mae'r dilysiad annibynnol, sy'n seiliedig ar sampl stoc flynyddol o 20% dros gyfnod o 5 mlynedd, hefyd yn rhoi sicrwydd bod rhagolygon cynnal a chadw cynlluniedig Grŵp Cynefin yn seiliedig ar ddata cyflwr stoc cadarn.

Dangosodd adroddiad SATC a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2019 fod 100% o stoc Grŵp Cynefin yn cydymffurfio â SATC (yn ddarostyngedig i fethiannau derbyniol).

Iechyd a Diogelwch

Mae Grŵp Cynefin wedi ymrwmo i gael trefniadau Iechyd a Diogelwch corfforaethol cadarn ar waith, a thrwy hynny, sicrhau bod gan ei Fwrdd Rheoli sicrwydd digonol. Ystyriodd Grŵp Cynefin ddau adroddiad 'gwersi a ddysgwyd' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a chynhyrchu Cynllun Gweithredu Corfforaethol Iechyd a Diogelwch sydd yn cael ei fonitro, ac yr adroddir arno bob chwarter i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Adolygodd y grŵp ei drefniadau iechyd a diogelwch gyda chymorth cynghorwyr allanol yn ystod y flwyddyn, a diwygiwyd y Cynllun Gweithredu Corfforaethol yn unol â hynny.

Dyfarniad Rheoleiddio

Nod Fframwaith Rheoleiddio Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod Cymru yn parhau i fod â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) sydd wedi'u llywodraethu'n dda ac sy'n gadarn yn ariannol, gan ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, a gwella gwasanaethau landlordiaid a defnyddwyr gwasanaeth. Yn unol â'r Fframwaith yma, cynhelir Dyfarniad Rheoleiddio blynyddol. Mae'r dyfarniad yn ystyried y canlynol:

GRŴP CYNEFIN

ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

- Llywodraethu a Gwasanaethau: A all y LCC nodi a rheoli risgiau sy'n dod i'r amlwg yn briodol
- Hyfywedd Ariannol: A yw'r LCC yn cwrdd â'i ofynion hyfywedd, ac a oes ganddo'r gallu ariannol i ddelio â senarios yn briodol

Cadarnhaodd y Dyfarniad Rheoleiddio blynyddol gan y Tîm Rheoleiddio Tai yn Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019, ddyfarniad 'safonol' ar Lywodraethu a Gwasanaethau a Hyfywedd Ariannol, a dyma'r dyfarniad uchaf posibl.

Gwasanaethau wedi'u moderneiddio a gwasanaethau digidol

Mae Grŵp Cynefin wedi buddsoddi yn ei feddalwedd rheolaeth tai newydd 'Active H' fel rhan o'n hymrwymiad i wella ei ddarpariaeth gwasanaeth. Mae ail gam y prosiect wedi hen ddechrau a bydd yn gwella effeithlonrwydd, gan alluogi'r sefydliad i ddod yn fwy modern a chysylltu'n well. Bydd y meddalwedd yn galluogi gwell ymateb i anghenion tenantiaid a chwsmeriaid trwy gynnig mwy o ddewis yn y ffyrdd y maent yn dymuno cynnal eu busnes gyda Grŵp Cynefin gymdeithas, er enghraifft, mae'r cam hwn yn cynnwys datblygu porth neu Ap tenant. Bydd rhedeg y busnes a chynllunio busnes yn cael ei wella trwy integreiddio'n well â meddalwedd rheoli asedau a gweithio symudol i weithwyr.

Mae tîm gofal cwsmer newydd 'Cyswllt Cynefin' bellach wedi'i sefydlu'n gadarn, ac mae'r adborth yn gadarnhaol ac yn dangos bod y gwasanaeth a ddarperir yn cael ei werthfawrogi. Dros y 12 mis nesaf, bydd Grŵp Cynefin yn anelu at achrediad gofal cwsmer, a bydd yn adrodd ar y datblygiad hwn yn ei Adroddiad Blynyddol nesaf. Bydd datblygiad parhaus technoleg gwybodaeth yn rhyddhau mwy o amser i staff *Cyswllt Cynefin* dreulio mwy o amser gyda'r cwsmeriaid sydd angen mwy o gefnogaeth.

Yn ystod 2019-20, gweithiodd Grŵp Cynefin ar ddatblygu Strategaeth Trawsnewid Digidol newydd ar gyfer 2019-2023, gyda'r nod o gael buddion sylweddol yn cynnwys gwelliannau diogelwch data a system, i weithio'n fwy effeithlon ac effeithiol, darparu delwedd fodern i Grŵp Cynefin a mwy o foddhad tenantiaid a staff. Cymeradwywyd y Strategaeth hon gan y Bwrdd Rheoli ym mis Mai 2020.

Diogelu a thrais domestig

Mae gan Grŵp Cynefin gyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles tenantiaid, a staff ac mae mewn sefyllfa dda i nodi materion cam-drin yng nghartref y teulu ac yn y gymuned ehangach, gyda gwybodaeth am anghenion lleol, ochr yn ochr â mynediad at wybodaeth am gyllid teulu, a mynediad i amgylcheddau cartref. Adolygwyd y Polisi Diogelu ym mis Chwefror 2020, ac mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd.

Yn ystod 2019-20, ac yn dilyn Archwiliad Mewnol ar y maes hwn, mae Grŵp Rheoli Diogelu wedi'i sefydlu, sy'n cyfarfod bob chwarter, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol. Mae'r grŵp yn ystyried a oes yna themâu Diogelu ac yn nodi unrhyw anghenion hyfforddi staff a'r gwersi a ddysgwyd.

Beth sy'n gwneud Grŵp Cynefin yn unigryw?

Grŵp Cynefin yw'r unig gymdeithas gai gyda stoc ar draws y chwe ardal awdurdod lleol yng ngogledd Cymru a gogledd Powys. Mae'r gymdeithas wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghenion tai, gyda datblygiadau'n amrywio o bentrefi gwledig i drefi mwy o faint.

Mae'r sefydliad yn darparu neu â diddordeb mewn bron i 5,000 o eiddo tai fforddiadwy, sy'n darparu ar gyfer sbectrwm cyfan o oedran ac anghenion. Mae'n amrywio o ddarparu cartref cyntaf i bobl, ymdrin ag anghenion teulu sy'n tyfu, darparu cartrefi sydd ag addasiadau arbenig, a thâi â chefnogaeth i arbenigo mewn darparu Tai Gofal Ychwanegol ar gyfer pobl hŷn.

Yn achos y rhai sydd mewn perygl o fod yn ddiartref neu ddiodeff trais yn y cartref, mae Gorwel, sy'n uned fusnes o fewn Grŵp Cynefin yn darparu cefnogaeth i bobl hynnod fregus.

Prif ffocws Gorwel yw gwasanaethau trais yn y cartref ac atal digartrefedd o fewn ardaloedd tri awdurdod lleol. Mae Gorwel yn cefnogi hyd at 500 o ddefnyddwyr gwasanaeth bob wythnos.

Mae Grŵp Cynefin yn adeiladu datblygiadau deiliadaeth cymysg ac yn ddiweddar mae wedi cael llwyddiant wrth werthu rhai unedau am werth marchnad, ac yn dysgu o'r profiadau. Bydd hyn yn dylanwadu ar gyfeiriad y dyfodol ac ar gydweithio posibl gyda phartneriaid strategol eraill.

GRŴP CYNEFIN

ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

Nid yw'r busnes yn ymwneud â chartrefi'n unig, mae Grŵp Cynefin yn adnabyddus am gynnig *#mwy na thai*. Mae'r Tîm Mentrau Cymunedol yn parhau i wneud gwahaniaeth trwy weithio gyda chymunedau i gynnig cyfleoedd i wella eu hansawdd bywyd. Enghreifftiau o brosiectau o'r fath yw'r Shed, Gallt Melyd a'r prosiect Iechyd a Mwy yn Nyffryn Nantlle, sydd â'i fomentwm yn cynyddu, ac a fydd yn brosiect sy'n cael ei redeg mewn cydweithrediad â Chyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac eraill.

Grŵp Cynefin yw'r unig gymdeithas dai sy'n gweithredu'n fewnol yn Gymraeg, ac mae'n falch dros ben o'r nodwedd unigryw hon. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i'r holl gwsmeriaid fedru sgwrsio gydag unrhyw un yn y gymdeithas yn eu hiaith ddewisol.

Mae gan Grŵp Cynefin ddwy brif swyddfa ym mhentref Penygroes [swyddfa gofrestredig] a thref Dinbych, gyda swyddfeydd eraill yn y Bala a Llangefni, sydd wedi galluogi staff i gefnogi'r economi leol ym mhob lleoliad. Mae hyn yn unigryw o gymharu â chymdeithasau tai eraill yn yr un ardal ddaearyddol.

Trwy gyfrwng ei ddau is-gwmni, Canllaw a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych, mae gan berchnogion tai hŷn ac anabl, a thenantiaid sy'n rhentu'n breifat ar draws pedair ardal awdurdod lleol fynediad at gymorth a chefnogaeth gydag addasiadau neu waith trwsio yn eu cartref, a fydd yn eu galluogi i fyw gartref yn annibynnol ac yn ddiogel. Eleni sefydlwyd cynllun peilot newydd wedi'i gyllido gan Lywodraeth Cymru, y prosiect *Adre o'r ysbyty* yn Ysbyty Gwynedd, Bangor ac Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan. Mae buddion amlwg yn deillio o'r gwasanaeth hwn sy'n galluogi cleientiaid i fynd adref yn ddiogel ar ôl cyfnod yn yr ysbyty, ac mae'n cynorthwyo gyda llif cleifion drwy'r ysbyty trwy hwyluso rhyddhau o'r ysbyty yn gynt, a thrwy hynny arbed arian i'r Bwrdd Iechyd.

Mae Gwasanaeth Gwella Cartrefi 'Gerddi Gwyrdd' Gofal a Thrwsio yn parhau i ehangu ac mae'n cynhyrchu incwm i'w fuddsoddi yng ngwasanaethau craidd y cwmni i sicrhau cynaliadwyedd. Dyfarnwyd statws Aseswr Ymddiriedig i staff o'r ddau gwmni, i asesu'r anghenion ar gyfer addasiadau lefel isel.

Staff Grŵp Cynefin

Ar ddiwedd Mawrth 2020, roedd y dangosyddion allweddol perfformiad fel a ganlyn:

	2020	2019
Nifer o staff ar ddiwedd y flwyddyn	257	246
Cyfystyr â llawn amser	206	195
Rhaniad rhwng cyflogeion benywaidd/ gwrywaidd	70 Gwryw 187 Benyw	69 Gwryw 177 Benyw

Mae gan Grŵp Cynefin staff talentog a llawn cymhelliant sydd wedi ymrwymo i alluogi'r sefydliad i gyflawni amcanion ei Gynllun Corfforaethol a darparu'r gwasanaethau gorau i'w gwsmeriaid. Yn ystod y flwyddyn, buddsoddodd Grŵp Cynefin yn ei holl reolwyr trwy gymryd rhan mewn cwrs Arweinyddiaeth Systemau a gynhelir gan Brifysgol Do-Well a Phrifysgol Glyndŵr. Bydd Grŵp Cynefin hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn staff eraill, gan eu gwneud yn fwy gwydn i unrhyw newidiadau a allai ddod fel o ganlyniad i'r adolygiadau strategol neu werth am arian a gynlluniwyd fel rhan o'i Strategaeth Twf newydd.

Mae Grŵp Cynefin yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant staff a chyfleoedd secondiad, gan fuddsoddi hefyd yn iechyd a lles ei staff trwy ystod o fentrau, a chynhaliwyd Cynhadledd Staff Grŵp ym mis Tachwedd 2019 yn seiliedig ar y thema 'Lles Staff'.

Adlewyrchir y buddsoddiad hwn ar ôl i Grŵp Cynefin ennill achrediad 'arian' 'Buddsoddwyr mewn Pobl' (BMP) yn ystod 2019-20, lle bydd y gwaith o ddatblygu Cynllun Datblygu Gweithlu yn cael ei lunio yn ymgorffori argymhellion adroddiad BMP.

Yn ystod 2019-20, cychwynnodd y gwaith o ddatblygu Fframwaith Cyfathrebu newydd yn unol â'i nod strategol, a oedd yn cynnwys ymgynghori ag amrywiol grwpiau o staff. Bydd y Fframwaith a'r cynllun yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Rheoli yn 2020-21 i'w gymeradwyo.

GRŴP CYNEFIN

ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

Dulliau o reoli risg a chwant am risg

Cymeradwyodd Grŵp Cynefin Fframwaith Sicrwydd Risg newydd, wedi'i seilio ar y dull 'tair llinell amddiffyn' trwy arweiniad ein cyn archwilyr allanol, Mazars. Cymhwyswyd y fframwaith i risgiau strategol y grŵp, ac yn ystod y flwyddyn i ddod bydd yn cael ei gymhwyso i risgiau gweithredol a risgiau prosiect ar gyfer rheoli sicrwydd ychwanegol.

Cynhaliwyd archwiliad mewnol ar y trefniadau Rheoli Risg ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, a chyflawnwyd barn archwilio 'Sicrwydd Sylweddol/ Cymedrol'.

Bu i Fwrdd Rheoli Grŵp Cynefin adolygu ei chwant am risg yn ddiweddar, a chafodd hyn ei ymgorffori i'r Gofrestr Risg. Bydd gwybodaeth rheoli risgiau yn fwy hygyrch i aelodau'r Bwrdd Rheoli a Phwyllgorau ar ôl buddsoddiad diweddar mewn meddalwedd newydd a fydd yn cryfhau trefniadau rheoli risgiau'r grŵp ymhellach.

Y prif risgiau a gafodd eu nodi fel y rhai sy'n debygol o ymddangos oedd diffyg hyfywedd ariannol, methu â chydymffurfio gyda deddfau a rheoliadau, methu â darparu gwasanaethau effeithiol i'n tenantiaid neu ddefnyddwyr gwasanaethau, methu â chynnal busnes effeithiol, niwed i enw da'r gymdeithas a methu â chyflawni'r Strategaeth Twf. Mae mesurau rheoli mewn grym i leddfu neu reoli effaith yr holl risgiau a nodwyd ar y Grŵp. Yn ystod 2019-20 a hyd yn hyn, y risgiau pennaf sy'n wynebu Grŵp Cynefin yw:

- Methiant y Prif Contractwr / Cadwyn Weithredol
- Llai o safleoedd posibl ar gyfer datblygu, ac ansicrwydd ynghylch y drefn grantiau newydd a'i heffaith ar ddatblygiadau yn y dyfodol
- Cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent

Mae pob un o'r uchod wedi cael ei gynyddu i'r eithaf oherwydd effeithiau COVID-19, ac yn ystod diwedd 2019/20, sefydlwyd 'Cofrestr Risg COVID-19' benodol. Mae'r gofrestr yn ymgorffori'r risgiau uchod, gyda'r risgiau allweddol ychwanegol o:

- Iechyd a diogelwch ein staff, tenantiaid ac Aelodau'r Bwrdd a'r ymyrraeth fusnes debygol oherwydd effeithiau COVID-19
- COVID-19 yn ein cynlluniau gofal ychwanegol, hefyd yn llochesi a hosteli Gorwel

Adolygir y Cofrestrau Risg yn ffurfiol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg bob chwarter, gydag unrhyw feysydd allweddol yn cael eu tynnu i sylw'r Bwrdd Rheoli wedi hynny.

Mae Grŵp Cynefin yn nodi risgiau trysorlys sylfaenol y mae'n agored iddynt, sy'n cynnwys risg hylifedd, risg credyd gwrthbartion, risg cyfradd llog, a risg gyfreithiol / rheoliadol. Mae'r holl risgiau wedi eu cynnwys yn y Gofrestr Risg Strategol, sydd yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) prif reolaethau i leihau'r effaith fel a ganlyn:

- Trefniadau a Polisi Rheolaeth Trysorlys cadarn, gyda'r Polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Bwrdd
- Trefniadau adrodd Rheolaeth Trysorlys rheolaidd i'r Pwyllgor Cyllid a Thwf
- Trefniadau adrodd rheolaidd ar berfformiad yn erbyn ein 'rheol aur'
- Adolygiad rheolaidd o'r holl raddfeydd credyd a gwrth bartion wedi'w cymeradwyo
- Trefniadau monitro wythnosol o berfformiad dyledion rhent
- Trefniadau monitro wythnosol o'r rhagolygon llif arian 24 mis
- Cyngor / chefnogaeth gyfreithiol trysorlys cynhwysfawr gan ymgynghorwyr a chynghorwyr cyfreithiol
- Trefniadau cyd-reoleiddio cadarn a rheolaidd gyda'n rheoleiddiwr

Bydd Grŵp Cynefin yn dylunio, gweithredu a monitro'r holl drefniadau sy'n angenrheidiol ar gyfer nodi a rheoli'r risgiau trysorlys hyn.

Mae'r trefniadau gweithredol penodol a'r rheolaethau risg sy'n ceisio sicrhau cydymffurfiad â'r amcanion wedi'u nodi ym Mholisi Rheoli Trysorlys y grŵp.

Rheolaeth Ariannol Fewnol

Yn unol â Chylchlythyr Cymdeithas Tai Llywodraeth Cymru - RSL 02/10: Rheolaethau ac adrodd mewnol, mae'r Bwrdd Rheoli yn cydnabod ei fod yn gyfrifol am system rheolaeth fewnol y grŵp ac am ddiogelu asedau'r grŵp, ac felly, am gymryd camau rhesymol er mwyn amddiffyn a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

GRŴP CYNEFIN

ADRODDIAD Y BWRDD RHEOLI

Mae'r Bwrdd Rheoli yn caffael gwasanaethau Archwilydd Mewnol annibynnol, er mwyn rhoi gwerthusiad gwrthrychol iddo a barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol rheolaeth risg a rheolaeth fewnol y grŵp.

Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn cael ei gymeradwyo'n flynyddol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Archwilwyr Mewnol ar contract allanol sy'n cyflwyno'r cynllun archwilio mewnol, a chyflwynir yr adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Risg i'w cymeradwyo. Mae'r cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion hefyd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg bob chwarter. Mae'r cynllun Archwilio Mewnol yn seiliedig ar gydbwysedd o asesiadau risg a Systemau, ac mae wedi'i gynllunio i adolygu'r system rheolaeth fewnol ar bob agwedd ar weithgareddau'r grŵp. Mae'r adolygiadau wedi'u cynllunio i roi sicrwydd rhesymol, ond nid absoliwt, ynghylch:

- dibynadwyedd y wybodaeth ariannol a gyflwynir ac a ddefnyddir gan y grŵp;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir; a
- diogelu asedau'r grŵp rhag unrhyw gamddefnydd.

Y gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu sydd wedi'u cynllunio i ddarparu rheolaethau ariannol mewnol effeithiol yw:

- rheoliadau ariannol ysgrifenedig ac awdurdodau dirprwyedig;
- systemau cynhwysfawr o adrodd ariannol gan gynnwys cyllidebau blynyddol a chyfrifon rheoli chwarterol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd, sy'n dangos perfformiad gwirioneddol yn erbyn y gyllideb ac yn tynnu sylw at unrhyw amrywiadau;
- adroddiadau archwilio mewnol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, hefyd y cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion;
- strwythurau rheoli ac adrodd wedi'u diffinio'n glir;
- Cynllun Busnes pum mlynedd wedi'i ddiwygio'n flynyddol gan ymgorffori rhagolygon ariannol a
- rhagolwg ariannol tri deg mlynedd a adolygir yn flynyddol, sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, a gyflwynir iddynt yn flynyddol, sy'n allosod cyfeiriad ariannol y grŵp

Llywodraethu Corfforaethol

Mae Bwrdd Rheoli Grŵp Cynefin yn cyfarwyddo gweithredoedd y gymdeithas yn unol â'i hamcanion a'i rheolau ac mae ganddo'r prif gyfrifoldeb am strwythur llywodraethu'r grŵp.

Ymhlith ei swyddogaethau bydd:

- diffinio a sicrhau cydymffurfiad â gwerthoedd ac amcanion strategol y sefydliad
- sefydlu fframwaith ar gyfer cymeradwyo strategaethau, polisiau a chynlluniau i gyflawni'r amcanion hynny
- bodloni ei hun ynghylch cywirdeb gwybodaeth ariannol a chymeradwyo cyllidebau a chyfrifon blynyddol a chynlluniau busnes
- sefydlu a monitro fframwaith ar gyfer dirprwyo a systemau rheolaeth mewnol sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol
- sefydlu fframwaith ar gyfer nodi, rheoli ac adrodd ar risg
- gwneud penderfyniadau a chytuno ar bolisiau ar bob mater a allai greu risg ariannol neu risg arall sylweddol i'r sefydliad neu sy'n codi materion egwyddor sylweddol
